**SENEDD CYMRU : WELSH PARLIAMENT**

**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Gwrw a Thafarndai** : Cross Party Group on Beer and the Pub

**ADRODDIAD BLYNYDDOL 2022-23 ANNUAL REPORT**

Mae cyfarfodydd y grŵp wedi parhau i gael eu cynnal ar-lein, gyda mwy nag ugain o bobl yn bresennol, gan gynnwys nifer sylweddol o Aelodau o'r Senedd.

Uchafbwynt y flwyddyn oedd digwyddiad Blasu Cwrw Bragdai Cymru ym mis Tachwedd, pan gafodd bragwyr o bob rhan o Gymru gyfle i arddangos rhai o'u cynhyrchion, a oedd ar gael i'w blasu. Roedd 13 Aelod o'r Senedd yn bresennol yn y digwyddiad, a chafwyd anerchiad gan Vaughan Gething, Gweinidog yr Economi, a roddodd ganmoliaeth i'r diwydiannau bragu a lletygarwch yn sgil eu cyfranogiad i Gymru. Cynhaliwyd cyfarfod dilynol gyda'r Gweinidog, ac roedd Cadeirydd y grŵp trawsbleidiol yn bresennol yn y cyfarfod hwnnw.

Ym mis Chwefror, cynhaliwyd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, pan gafodd swyddogion y grŵp eu hailethol. Cafodd yr ymweliad â bragdy a drefnwyd ar gyfer tymor yr haf ei ohirio yn sgil y ffaith nad oedd digon o Aelodau ar gael, ac mae cynlluniau ar y gweill i aildrefnu'r digwyddiad hwnnw.

Mae'r Cynllun Dychwelyd Ernes (DRS) arfaethedig yn parhau i achosi pryder i'r diwydiant cyfan. Gan nodi bod y broses o gyflwyno cynllun o'r fath wedi cael ei gohirio yn yr Alban, mae'r grŵp trawsbleidiol wedi mynegi ei bryderon ei hun i'r Gweinidog ac i Aelodau o'r Senedd. Yn ystod cyfarfod y grŵp ym mis Mai, cafwyd anerchiad gan Craig Hoy MSP, Cadeirydd Grŵp Trawsbleidiol Senedd yr Alban ar Gwrw. Mae'r mater hwn wedi'i gynnwys yn amlwg ar agenda ein grŵp trawsbleidiol.

Gwnaeth Oliver Robinson gynnig croesawu Aelodau o'r Senedd ac aelodau eraill o'r grŵp i dafarndai ei gwmni yng ngogledd Cymru.

Rydym yn dymuno cofnodi ein diolch i'r bobl a'r grwpiau a ganlyn am eu holl gymorth parthed gweithgarwch y grŵp trawsbleidiol: Clwstwr Cwrw Cymru, o dan Cen Hayward; y grŵp hollbleidiol seneddol yn San Steffan, ac yn benodol ei ysgrifennydd newydd, Rita King; a Chymdeithas y Bragwyr Annibynnol, drwy Barry Watts.

Nid oes unrhyw faterion ariannol i'w hadrodd gan nad yw'r grŵp trawsbleidiol wedi cael unrhyw gyfraniadau, nawdd na chymorth ariannol arall.

**JACK SARGEANT,** Cadeirydd

**JOHN POCKETT,** Ysgrifennydd

18 Hydref/October